

# Ysgol Treganna

## Cylchlythyr wythnosol



### Wythnos yma

Wythnos yma mae wedi bod yn hyfryd i groesawu rhieni a gwarcheidwaid i'r ysgol ar gyfer ein sesiynau "Cwrdd â'r Athro". Yn ystod y cyfarfodydd roedd yr athrawon yn sôn am drefniadau'r dosbarth, diwrnod ymarfer corff, cyswllt darllen Teams, amserlen yr wythnos a'r sesiynau Dysgu Awyr Agored. Os nad oeddech yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfodydd ac am wybodaeth bellach cofiwch i gysylltu gyda'r ysgol.

Dydd Mawrth nesaf y 24ain o Fedi bydd Colorfoto yn yr ysgol yn tynnu lluniau unigol a brodyr/ chwiorydd. Os mae'n ddiwrnod ymarfer corff neu Dysgu Awyr Agored eich plentyn gofynnwn yn garedig iddynt ddod i'r ysgol yn eu gwisg ysgol a'r dillad ymarfer corff/ dysgu awyr agored yn y bag.

Cofiwch hefyd am y cyfarfod i rieni a gwarcheidwaid fydd yn neuadd yr ysgol ar ddydd lau, y 3ydd o Hydref am 9.30yb a 5.30yh. Rydym wedi gorfod newid y dyddiad o'r 2il i'r 3ydd. Yn ystod y cyfarfod byddwn yn cyflwyno blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer y flwyddyn academaidd 24/25. Yn ogystal byddwn yn sôn am weithdrefnau'r ysgol ac yn sôn am ein polisi diogelu. Bydd Group Ed hefyd yn bresennol i sôn am y platfform newydd byddwn yn defnyddio ar gyfer ein holl gyfathrebu. Ar hyn o bryd rydym yn defnyddio Group Ed yn unig ar gyfer danfon negeseuon allan i rieni, sy'n cynnwys y cyswllt wythnosol a'r cylchlythyr.

Cysyniad tymor yr Hydref ar gyfer yr ysgol gyfan yw Amrywiaeth. Mae'r disgyblion yn ystod eu diwrnodau darganfod wedi bod yn cyfrannu tuag at daith dysgu'r dosbarth. Dros yr wythnosau nesaf byddwn yn danfon trosolwg o waith y tymor ar gyfer pob blwyddyn ysgol.

## Calendr



### Colorfoto

24/09/24

### Cyfarfod a choffi i rieni yn neuadd yr ysgol

03/10/24

## **Awgrymiadau diogelwch ar-lein i rieni a gofalwyr**

Fel ysgol rydym yn ymwybodol o'r cyfrifoldeb sydd gennym i sicrhau bod ein disgyblion yn cael eu haddysgu i fod yn ddiogel ar y we.

Dyma linc i rieni a gwarcheidwaid sydd yn cynnwys argymhellion sy'n hawdd eu dilyn ar sut i helpu eich plentyn i fwynhau profiad diogel a chyfrinachol ar-lein.

Linc Hwb.

Cymraeg - <https://hwb.gov.wales/cadwn-ddiogel-ar-lein/repository/resource/227fb629-7807-4ce4-a1c0-bd8efa13bf17/reviews>

## **Pwyllgorau Llais y Disgybl**

Wythnos yma mae'r disgyblion wedi bod yn penderfynu ar bwyllgorau llais y disgybl.

Y pwyllgorau sydd gennym eleni yw'r Cyngor Ysgol, Pwyllgor Eco, Criw Cymraeg, Dewiniaid Digidol, Arweinwyr yr Enfys a Llysgenhadon Lles.

Pwyllgor newydd eleni fydd Arweinwyr yr Enfys a'i hamcan fel grŵp fydd cefnogi cynllunio'r cwricwlwm a deall cynrychiolaeth o fewn ein cymuned.

Bydd y criw yn helpu i fonitro ac yn arfarnu darpariaeth o fewn ystafelloedd dosbarth ac yn cefnogi cynllun gwella'r ysgol.

Bydd y grwp hefyd yn ymgysylltu â chymuned yr ysgol gyfan i gefnogi ein hagenda gwrth-hiliaeth.

Dros yr wythnosau nesaf byddwn yn uwchlwytho cynlluniau strategol bob pwyllgor i'r wefan ac yn rhannu prosiectau'r tymor.

## Clwb Cyfnewid Cardiau Pêl-droed

Dydd Gwener nesaf, y 27ain o Fedi, byddwn yn cychwyn Clwb Cyfnewid Cardiau Pêl-Droed amser cinio bob dydd Gwener.

Yn y clwb bydd disgyblion BI 4,5 a 6 o dan oruchwyliaeth staff, yn cael cyfle i gyfnewid cardiau. Gofynnwn yn garedig i'r disgyblion ddod â'r cardiau pêl -droed i'r ysgol ar ddydd Gwener yn unig.

## Bws Beic

Unwaith yn rhagor cafwyd Bws Beic hynod o lwyddiannus bore ma! Daeth nifer fawr o ddisgyblion, rhieni a staff ynghyd a diolch unwaith eto i Hamish o Sustrans am gefnogi'r fenter.

Rydym yn hynod o falch hefyd o'r clip fideo mae Sustrans wedi rhyddhau o fws beic ysgol Treganna a da iawn i bawb wnaeth gyfrannu i'r fideo.

Dyma linc i'r fideo - <https://www.sustrans.org.uk/campaigns/fridedays-bike-bus/>

## Patrwm Iaith

### Wythnos nesaf, dyma batrwm iaith yr wythnos

Sut wyt ti/ Sut ydy chi?

Iawn diolch/ Da iawn diolch

### Her

Rydw i ar ben y byd heddiw

Rydw i'n hapus fel y gog heddiw

Rydw i wedi cael llond bol heddiw

### Testun trafod yr wythnos

Fy hoff gemau i chwarae yn y car yw...

### Cân yr wythnos

Fleur de Lys - Dawsnia

### Idiom yr wythnos

Rhaid crocian cyn cerdded

